Eisteddfod Gadeiriol Ysgol Dyffryn Conwy
A oes Heddwch?....

…oedd y cwestiwn a ofynnwyd yn Eisteddfod Ysgol Dyffryn Conwy ar ddydd Iau, 17eg o Dachwedd. Cafodd 'heddwch' ei adleisio yn uchel iawn yn neuadd yr ysgol wrth i enillydd y brif gystadleuaeth lenyddol gael ei chadeirio. Yn ystod y seremoni fawreddog, cododd Lowri Llwyd Roberts o Flwyddyn 11 ar ei thraed ar ôl i'w ffugenw 'Wil Bob' gael ei gyhoeddi. Daeth stori fer Lowri o dan y teitl 'Tymhorau' i'r brig allan o un ar bymtheg o gystadleuwyr. Beirniad y gystadleuaeth oedd Myrddin ap Dafydd, y Prifardd a'r beirniad uchel ei barch. Cafodd y llenor buddugol ei chadeirio yng nghadair Eisteddfod Genedlaethol 2009, a chafodd ei chyflwyno â model cain o gadair, wedi ei chrefftio a'i noddi gan y Cynghorydd Mike Rayner.

Y seremoni gadeirio oedd uchafbwynt wythnos gyffroes o gystadlu wrth i'r Eisteddfod ysgol gael ei hail-gyflwyno yn Ysgol Dyffryn Conwy ar ôl sawl degawd. Bu disgyblion o'r pedwar tŷ - Geirionnydd, Gwydir, Crafnant a Hiraethog yn cystadlu ar y llwyfan ac yn y cystadlaethau gwaith cartref. Daeth gweithgareddau'r Eisteddfod i binacl yn ystod pnawn Gwener hwyliog a brwd o gystadlu gan y staff a'r disgyblion.

Bu'r beirniaid - Dafydd Lloyd Jones, Dorothy Jones, Non Cooper a Dilwyn Price yn brysur iawn ac roeddynt i gyd yn canmol ymddygiad ac ymdrech y disgyblion a safon uchel y perfformiadau. Cafwyd enillwyr haeddiannol iawn hefyd yn y tair prif gystadleuaeth arall, a gwelwyd nifer uchel o ymgeiswyr. Cafodd y goron gywrain ei dylunio a'i chrefftio gan Heledd Griffiths, Pennaeth yr Adran Ddylunio a Thechnoleg ac fe'i noddwyd gan gwmni Menyn's. Enillydd y goron oedd Madeleine Williams o Flwyddyn 13 a ysgrifennodd gerdd Saesneg o dan y teitl 'Heritage'. 'Blas ar Fwyd' oedd noddwyr y Fedal Gyfansoddi a'r enillydd oedd Nia Glesni Roberts o Flwyddyn 13. Noddwyd y Fedal Ddrama gan 'Bys a Bawd', a'r enillydd oedd Non Hughes o Flwyddyn 13, un o'r capteiniaid tŷ.

Cyflwynwyd Tarian 'Menter Iaith Conwy' i Rhodri Sion am y perfformiad gorau yn yr adran lefaru. Enillydd Tarian 'Lle Hari- Y Dolydd' am y perfformiad gorau yn yr adran ddawns oedd Angharad Jones-Young o Flwyddyn 8. Bu'n Eisteddfod lwyddiannus iawn i Lowri Llwyd Roberts, hi hefyd oedd enillydd y darian am y perfformiad gorau yn yr adran gerddoriaeth am ei datganiad piano. Noddwyr y gystadleuaeth hon oedd Edwards o Gonwy.

Y prif noddwyr eraill oedd Garej Meadow Vale, Brodwaith a'r Llew Coch.

Tŷ Geirionnydd enillodd gwpan 'Siwgr a Sbeis' am y côr buddugol a chwpan 'Y Tanerdy' am y parti llefaru buddugol. Roedd yna ddisgwyl mawr i glywed y canlyniad terfynol..sef y Gwpan i'r tŷ buddugol, a noddwyd gan 'Dir a Môr'. Roedd hi'n agos iawn, ond Geirionnydd aeth â hi.

Cafodd Andrea Parry, trefnydd yr Eisteddfod ei syfrdanu gan y gefnogaeth leol.

"Mae'r busnesau lleol wedi bod yn hael a chefnogol iawn yn noddi'r holl gystadlaethau llwyfan. Rydym yn gwerthfawrogi'r holl gyfraniadau yn fawr iawn. Mae'r rhieni a'r gymuned wedi bod yn gefnogol iawn i'r digwyddiad a diolch i'r holl ddisgyblion am ymroi mor frwdfrydig. Gobeithio y bydd yr Eisteddfod yn parhau i ddatblygu i fod yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn ysgol."

Roedd Eisteddfod gyntaf yr ysgol yn llwyddiant ysgubol, ac mae'r tai yn ysu am gael dechrau meddwl am syniadau ar gyfer y flwyddyn nesaf.